

TRAFNIDIAETH CYMRU
ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

TRAFNIDIAETH CYMRU
GWYBODAETH AM Y CWMNI

Cyfarwyddwyr

P Kennedy
J Price
B McKenzie
A Falleyn
M Dorchester (Penodwyd 01/09/2017)
N Gregg (Penodwyd 01/09/2017)

Rhif y cwmni

09476013

Swyddfa gofrestrdig

Canolfan QED, Main Avenue
Ystad Ddiwydiannol Treforest
Pontypridd
Rhondda Cynon Taf
CF37 5YR

Archwilydd

Haines Watts Wales LLP
7 Llys Neptune
Vanguard Way
Caerdydd
CF24 5PJ

TRAFNIDIAETH CYMRU

CYNNWYS

	Tudalen
Adroddiad strategol	1 - 3
Adroddiad y cyfarwyddwyr	4 - 5
Datganiad llywodraethu corfforaethol	6 - 8
Adroddiad yr archwilydd annibynnol	9 - 10
Datganiad incwm cynhwysfawr	11
Datganiad o'r sefyllfa ariannol	12
Datganiad o'r newidiadau mewn cronfeydd	13
Datganiad o'r llif arian	14
Nodiadau ar y datganiadau ariannol	15 - 24

TRAFNIDIAETH CYMRU

ADRODDIAD STRATEGOL

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

Mae'r Cadeirydd, ar ran y cyfarwyddwyr, yn cyflwyno'r adroddiad strategol a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

Strategaeth ac amcanion busnes

Nod Trafnidiaeth Cymru yw 'Cadw Cymru i Symud' drwy ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, drwy roi cyngor arbenigol a thrwy fuddsoddi mewn seilwaith. Mae trafndiaeth yn cysylltu pobl a chymunedau, yn sail i ddatblygu cynaliadwy ac yn galluogi twf economaidd. Bydd gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus gwell yn creu manteision go iawn i bobl, gan gynnwys mynediad gwell at gyfleoedd cyflogaeth ac integreiddio gwasanaethau'n well, fel addysg ac iechyd, gyda'r system trafndiaeth gyhoeddus.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cydweithio â rhanddeiliaid, partneriaid a darparwyr trafndiaeth eraill ledled Cymru a'r gorau er mwyn darparu system trafndiaeth integredig a charbon isel sy'n ddiogel, yn ddibynadwy, yn fforddiadwy ac yn hwylus. Ein gweledigaeth yw creu rhwydwaith trafndiaeth mae Cymru yn falch ohono.

Byddwn ni'n ceisio cyflawni nifer o amcanion strategol yn ystod y pum i'r ddeg mlynedd nesaf er mwyn cefnogi ein gweledigaeth a chyd-fynd â'n diben:

- **Gwasanaethau gwell i gwsmeriaid:** Byddwn ni'n datblygu ethos gwasanaeth cwsmeriaid cyffredinol ar draws gwasanaethau trafndiaeth yng Nghymru a'r gorau. Bydd hyn yn canolbwyntio ar anghenion pobl, gan gynnwys cymunedau a busnesau, gyda'r nod o ddarparu trafndiaeth carbon isel sy'n ddiogel, yn ddibynadwy ac yn fforddiadwy.
- **Cwbl integredig:** Byddwn ni'n canolbwyntio ar wella'r integreiddio rhwng gwahanol ddulliau o drafndiaeth, a hynny'n barhaus. Bydd integreiddio yn gofyn am ddarpariaeth ddibynadwy o wybodaeth, tocynnau syml a gwasanaethau cydlynol mewn cyfnewidfydd, yn ogystal â gwasanaethau ag ôl meddwl arnynt a, pan fo hynny'n bosibl, sydd wedi'u cydleo, ee gorsafoedd bysiau a threnau wedi'u lleoli gyda'i gilydd.
- **Ail-fuddsoddi mewn trafndiaeth:** Byddwn ni'n sicrhau bod unrhyw warged o'n gweithrediadau yn cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau trafndiaeth a seilwaith er lles cwsmeriaid.
- **Sicrhau ein bod ni'n gwasanaethu Cymru gyfan yn effeithiol:** Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n gwella'r ddealltwriaeth sydd gennym ni o anghenion lleol a rhanbarthol ledled Cymru er lles defnyddwyr trafndiaeth nawr ac i'r dyfodol. Mae ein cynlluniau cyntaf ar gyfer cyflawni hyn yn cynnwys sefydlu Uned Fusnes yng ngogledd Cymru ddechrau 2018 a sefydlu ein pencadlys ym Mhontypridd gyda phartneriaid allweddol yn 2019/20.
- **Datblygu sgiliau mewn ffordd gynaliadwy:** Mae llwyddiant Trafnidiaeth Cymru yn dibynnu ar ddatblygu sgiliau er mwyn darparu gwasanaethau a seilwaith. Byddwn ni'n chwilio am ffyrdd o greu seilwaith a gwasanaethau sy'n arwain at fanteision lleol a rhanbarthol gwell fyth. Byddwn ni'n gweithio gyda busnesau bach a chanolig a sefydliadau mwy trwy ddull cynghreirio er mwyn cynyddu gwerth uniongyrchol am arian drwy gyflawni yn effeithlon ac yn effeithiol, yn ogystal â manteision economaidd cynaliadwy ehangach.
- **Cysylltu cymunedau:** Bydd y ffordd yr awn i'r afael â nifer o'n hamcanion yn sail i'n nod o sicrhau bod cymunedau'n cael eu cysylltu'n briodol. Ar wahân i gysylltiadau trafndiaeth, bydd y ffocws ar gyfleoedd adfywio a chreu ardaloedd cyhoeddus er mwyn cefnogi twf cynaliadwy a'n hymrwymiad i'r Gymraeg yn cefnogi'r amcan hwn.
- **Modelu trafndiaeth, cynllunio defnydd tir:** Byddwn ni'n sefydlu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi'r penderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud yng nghyswllt buddsoddi mewn seilwaith. Byddwn ni'n darparu cymorth er mwyn sicrhau bod pawb yn deall y cyfleoedd i gynyddu nifer yr ardaloedd hamdden, busnes a phreswyl sydd o fewn pellter cerdded i drafndiaeth gyhoeddus a'r cyfleoedd i wella cysylltiadau a chynyddu cyfraniad trafndiaeth at leihau ôl troed carbon.
- **Yr amgylchedd/Carbon:** Byddwn ni'n mynd ati i ddatgarboneiddio ein rhwydweithiau trafndiaeth a gwella ansawdd y cymunedau maent yn eu gwasanaethu, gan geisio atal yr effaith negyddol gysylltiedig ar iechyd.

TRAFNIDIAETH CYMRU

ADRODDIAD STRATEGOL (PARHAD)

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

Adolygiad busnes

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r prif ffocws wedi parhau i fod ar gaffael Gweithredwr a Phartner Datblygu (ODP) ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd Metro De Cymru a Chymru a'r Gororau. Ar ôl y broses gaffael gystadleuol, dyfarnwyd y contract i KeolisAmey a llofnodwyd y contract ar 4 Mehefin 2018. Bydd y gwasanaethau rheilffordd yn cael eu trosglwyddo i KeolisAmey ar 14 Hydref 2018 ac mae disgwyl gweld nifer o welliannau, gan gynnwys rhagor o wasanaethau a thocynnau clyfar ledled Cymru.

Er mwyn cyflawni'r nod o drawsnewid gwasanaeth trafniadaeth gyhoeddus yng Nghymru drwy sicrhau gwasanaeth cyflymach, amlach ac integredig, mae Trafnidiaeth Cymru wedi caffael nifer o Bartneriaid Darparu Seilwaith (IDPs) i'n Fframwaith Darparu Seilwaith Trafnidiaeth Gynaliadwy (STRiDe), a fydd yn ymgymryd â phrosiectau seilwaith yn ymwneud â thrafnidiaeth yng Nghymru, gan gynnwys Metro De Cymru a Gogledd Cymru. Mae disgwyl i'r contractau cyntaf gael eu cyhoeddi dan y fframwaith newydd fis Gorffennaf 2018.

Er mwyn cyflawni ein hamcanion a sicrhau bod atebolrwydd clir, rydyn ni'n credu y byddai'n ddymunol i Trafnidiaeth Cymru ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y seilwaith ac asedau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yng Nghledrau Craidd y Cymoedd. Mae'r gwaith o drosglwyddo asedau yn datblygu'n dda, gyda chyfres o egwyddorion masnachol yn cael eu cytuno â Network Rail fis Medi 2017. Mae'r Cytundeb Trosglwyddo Asedau a'r Cytundeb Cadw'n Ddiogel wrthi'n cael eu datblygu er mwyn cytuno arnynt â Network Rail erbyn haf 2018.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi parhau i ehangu ei dîm rheoli ac mae wedi paratoi ei adnoddau ar ôl dyfarnu'r contract ODP a chyn i'r gwasanaethau rheilffordd ddechrau yn hydref 2018.

Yn ystod y flwyddyn, roedd y Cwmni wedi gwneud gwarged ar ôl treth o £409,000. Daw'r gwarged hwn wrth ddefnyddio darpariaethau pris trosglwyddo, lle mae Trafnidiaeth Cymru yn rhoi lwfans ar ei gostau am ei wasanaethau cynghori a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru. Bydd y gwarged yn cael ei ail-fuddsoddi yng ngweithgareddau'r Cwmni er mwyn bodloni'r amcanion a nodwyd.

Diogelwch a chynaliadwyedd

Mae diogelwch a chynaliadwyedd yn rhai o werthoedd craidd Trafnidiaeth Cymru, sy'n treiddio trwy ein sefydliad a'n partneriaethau ag eraill. Bydd cyfarwyddiaeth Diogelwch a Chynaliadwyedd yn cael ei sefydlu yn 2018, gan sicrhau bod cyfrifoldebau'r swyddogaethau gweithredol yn cael eu gwahanu'n glir oddi wrth y swyddogaeth cydymffurfio a sicrhau ansawdd. Bydd y gyfarwyddiaeth newydd yn gyfrifol am arwain, cefnogi a herio'r sefydliad ar draws pob gweithrediad a gwasanaethau corfforaethol. Caiff trefniadau diogelwch Trafnidiaeth Cymru eu hadrodd yn ôl i'r Bwrdd yn rheolaidd er mwyn gallu adolygu a gofyn cwestiynau yn briodol yng nghyswllt pob agwedd ar ddiogelwch.

Bydd y gyfarwyddiaeth newydd hefyd yn cyflogi Hyrwyddwr ar gyfer y Gadwyn Gyflenwi, ac mae'r broses gaffael wrthi'n mynd rhagddi. Bydd hyn yn helpu i ymgysylltu a chyflenwi'n effeithiol er mwyn cyflawni ein nodau o weithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau, gan sicrhau rhagor o fanteision ar gyfer cymunedau.

Datblygiadau i'r dyfodol

Ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019, mae cynllun busnes y Cwmni'n adlewyrchu'r amcanion a restrir uchod yn ogystal â chynnwys y llythyr cylch gwaith a gafwyd. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu achosion busnes ar gyfer gwasanaethau eraill posibl a fydd yn cael eu darparu gan Trafnidiaeth Cymru, fel cyfrannu mwy at y gwaith o ddarparu a goruchwyllo gwasanaethau bysiau, yn ogystal â chyfrannu mwy at ddarparu seilwaith priffyrdd ac at ddarpariaeth rheoli'r rhwydwaith priffyrdd. Felly, rydyn ni wrthi'n gwneud paratodau priodol er mwyn mynd i'r afael â'r gofynion hynny drwy gydol y flwyddyn a ddaw.

TRAFNIDIAETH CYMRU

ADRODDIAD STRATEGOL (PARHAD)

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

Prif risgiau ac ansicrwydd

Ar hyn o bryd, caiff Trafnidiaeth Cymru ei ariannu'n llwyr gan Lywodraeth Cymru, a chytunir ar y cyllid hwnnw yn flynyddol. Felly, y risg a'r ansicrwydd mwyaf yw graddfa a phroffil y cyllid a ddaw gan y Llywodraeth yn y tymor hirach. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wella rhwydwaith trafndiaeth Cymru ac mae'r Cwmni'n gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru i ddeall a rheoli unrhyw gyfyngiadau cyllido.

Mae gan Trafnidiaeth Cymru raglen waith helaeth dros y pum mlynedd nesaf ac mae risg na fydd digon o sgiliau ar gael i gyflawni'r prosiectau. I liniaru'r risg, mae'r Cwmni'n gweithio gyda chadwyn gyflenwi, drwy fframwaith ODP a fframwaith STRiDe, er mwyn sicrhau bod modd ymdrin ag unrhyw fylchau o ran sgiliau dros amser.

Bydd y trefniadau cytundebol a'r ffaith bod y gwasanaeth rheilffyrdd yn berchen ar seilwaith gyda Cledrau Craidd y Cymoedd yn peri risgiau tymor hir y bydd angen i Trafnidiaeth Cymru eu rheoli. Lle bo hynny'n bosibl, mae'r risgiau hyn wedi'u lliniaru yn y contractau ond bydd y risgiau'n cael eu rheoli'n agos drwy'r trefniadau llywodraethu sydd wedi'u gosod, ac mewn partneriaeth â'r ODP a'r IDP.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Ar gyfer y flwyddyn gyfredol, mae dangosyddion perfformiad allweddol wedi bod yn canolbwyntio ar yr amserlen gaffael ar gyfer penodi OPD a IDPs ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd Metro De Cymru a Chymru a'r Gororau. Mae'r prosesau caffael ar gyfer y gwasanaethau trên a'r fframwaith STRiDE newydd wedi'u cwblhau'n llwyddiannus (gweler yr adran Adolygu Busnes uchod).

Ar gyfer y flwyddyn a ddaw, mae dangosyddion perfformiad allweddol wedi cael eu gosod ar sail pedair prif thema: gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, cyngor arbenigol, buddsoddi mewn seilwaith a chorffori. Bydd y rhain yn cael eu monitro drwy'r flwyddyn ac adroddir yn ôl arnynt yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019.

Ar ran y bwrdd



N Gregg

Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr

29th June 2018

TRAFNIDIAETH CYMRU

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

Mae'r cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a'u datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a nodir ar dudalennau 6 i 8 yn rhan o'r adroddiad hwn.

Canlyniadau

Mae'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn wedi'u nodi ar dudalen 11.

Cyfarwyddwyr

Dyma'r cyfarwyddwyr a oedd yn dal swyddi yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol:

A Falleyn	
B McKenzie	
G Morgan	(Wedi ymddiswyddo 15/01/2018)
J Price	
M Drury-Rose	(Wedi ymddiswyddo 19/01/2018)
P Kennedy	
S Evans	(Wedi ymddiswyddo 28/04/2017)
M Dorchester	(Penodwyd 01/09/2017)
N Gregg	(Penodwyd 01/09/2017)

Darpariaethau indemniad trydydd parti cymhwysol

Mae'r Cwmni wedi gwneud darpariaethau indemniad trydydd parti cymhwysol er budd ei Gyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn. Mae'r darpariaethau hyn yn dal mewn grym ar y dyddiad adrodd.

Polisiâu ac amcanion rheoli risgiau ariannol

Prif risg y Cwmni yw risg credyd. Y prif asedau ariannol yw arian parod a symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill. Mae risg credyd y Cwmni i'w phriodoli'n bennaf i'r symiau masnach derbyniadwy sydd ag un parti i gcontract, er bod cyfarwyddwyr y bwrdd yn credu mai risg fach yw hon oherwydd bod y symiau derbyniadwy yn rhai sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru.

Datblygiadau i'r dyfodol

Gellir gweld manylion digwyddiadau a datblygiadau i'r dyfodol sydd wedi digwydd ar ôl dyddiad y fantolen ar dudalen 2 yr Adroddiad Strategol ac maent yn rhan o'r adroddiad hwn drwy groesgyfeiriad.

TRAFNIDIAETH CYMRU

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR (PARHAD)

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

Datganiad o gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r dogfennau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Mae cyfraith Cwmnïau yn datgan bod yn rhaid i'r cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Dan y gyfraith honno, mae'r cyfarwyddwyr wedi'u dewis i baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, sydd wedi'u mabwysiadu gan yr Undeb Ewropeaidd. Dan gyfraith Cwmnïau, ni ddylai'r cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa'r Cwmni ac o elw neu golled y Cwmni ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae Safon 1 y Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol yn datgan bod yn rhaid i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- dewis a defnyddio polisiau cyfrifyddu yn gywir;
- cyflwyno gwybodaeth, gan gynnwys polisiau cyfrifyddu, mewn ffordd sy'n rhoi gwybodaeth berthnasol a dibynadwy y mae modd ei chymharu a'i deall;
- darparu datgeliadau ychwanegol os na chydymffurfir yn ddigonol â'r gofynion penodol yn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol er mwyn galluogi defnyddwyr i ddeall effaith trafodiadau penodol, digwyddiadau eraill a sefyllfa a pherfformiad ariannol yr endid.
- cynnal asesiad o allu'r Cwmni i barhau fel busnes byw.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw digon o gofnodion cyfrifyddu i allu dangos ac egluro trafodiadau'r Cwmni a datgelu yn rhesymol gywir unrhyw bryd beth yw sefyllfa ariannol y Cwmni, yn ogystal â galluogi'r Cwmni i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Nhw sydd hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Cwmni ac, felly, am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw anghysondeb arall.

Datganiad datgelu i'r archwilydd

Hyd yma, mae pob unigolyn a oedd yn gyfarwyddwr ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn yn gwybod nad oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y Cwmni yn gwybod amdani. Hefyd, mae pob cyfarwyddwr wedi cymryd pob cam angenrheidiol roedd yn rhaid iddynt eu cymryd fel cyfarwyddwyr er mwyn dysgu'r wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilydd y Cwmni'n ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Ar ran y bwrdd



J Price
Cyfarwyddwr



TRAFNIDIAETH CYMRU

DATGANIAD LLYWORDRAETHU CORFFORAETHOL

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

Cyflwyniad

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Trafnidiaeth Cymru, rwyf i'n bersonol gyfrifol am y gwaith cyffredinol o reoli a llywodraethu'r Cwmni. Mae'r Datganiad Llywodraethu yn nodi sut rwyf i wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb am reoli a chadw trefn ar adnoddau Trafnidiaeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwmo i safonau uchel ac mae llywodraethu cadarn yn hollbwysig i'r Cwmni, yn enwedig gan fod ei weithgareddau ar hyn o bryd yn cael eu hariannu yn llwyr gan y pwrs cyhoeddus.

Y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sefydlu a datblygu nodau ac amcanion strategol Trafnidiaeth Cymru, yn gyson â'i ddiben cyffredinol ac yn unol â'r fframwaith adnoddau a'r polisi a bennwyd. Mae'r Bwrdd yn gyd-gyfrifol am hyrwyddo llwyddiant y Cwmni drwy gyfarwyddo a goruchwylio materion y Cwmni.

Caiff Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd eu penodi yn unol ag Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni, ac maent yn gyd-gyfrifol am y canlynol:

- Darparu arweinyddiaeth effeithiol, prosesau llywodraethu cadarn, diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a gosod amcanion heriol;
- Hyrwyddo safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus a chynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- Sicrhau bod gweithgareddau'r Cwmni'n cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol;
- Monitro perfformiad i sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru yn bodloni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformio; a
- Sicrhau bod trefniadau effeithiol wedi'u pennu i ddarparu sicrwydd yng nghyswllt rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Mae disgwyl i'r Bwrdd ei sicrhau ei hun o effeithiolrwydd y systemau rheoli risg a chadw trefn fewnol.

Caiff cyfrifoldebau'r Cadeirydd eu rhannu rhwng aelodau eraill y Bwrdd ac mae disgwyl iddynt gefnogi'r Cadeirydd yn ei swydd a gweithredu yn unol â'r cyfrifoldebau hynny wrth gyflawni eu dyletswyddau eu hunain. Gall y Bwrdd ddirprwyo cyfrifoldebau i staff am weinyddu'r materion rheoli beunyddiol, ond bydd y Bwrdd yn parhau i fod yn gyfrifol ac yn atebol am yr holl faterion yn y pendraw. Mae'r Cwmni'n cadw rhestr o faterion y bydd y Bwrdd yn penderfynu arnynt, yn ogystal â chynllun dirprwyo cyfrifoldebau sydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd.

Caiff yr wybodaeth ei darparu cyn pob cyfarfod Bwrdd er mwyn gallu cynnal trafodaeth agored ac, os bydd hynny'n briodol, er mwyn gwneud penderfyniadau. Mae aelodau'r Tîm Gweithredol yn mynychu ac yn rhoi cyflwyniadau yn rheolaidd yng nghyfarfod y Bwrdd ac mae cynrychiolydd o unig Aelod-warantwr y Cwmni yn mynd i bob cyfarfod Bwrdd.

Mae'n rhaid i holl Gyfarwyddwyr ac aelodau'r Tîm Gweithredol gwblhau Datganiad Gwrthdaro rhwng Buddiannau er mwyn sicrhau y nodir unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau. Caiff y Cyfarwyddwyr eu hatgoffa i ddatgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau cyn pob cyfarfod Bwrdd. Caiff unrhyw wrthdaro ei ddatgan yn y cofnodion ac ni fydd y Cyfarwyddwr yn cymryd rhan yn yr eitem honno ar yr agenda.

Ar hyn o bryd mae gan y Bwrdd bump cyfarwyddwr anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd) ac un cyfarwyddwr gweithredol. Mae'r Bwrdd yn credu bod yr holl gyfarwyddwyr anweithredol yn rhai annibynnol. Mae cyfarwyddwyr anweithredol ychwanegol yn cael eu recriwtio a bydd y Cyfarwyddwr Cyllid newydd yn ymuno â'r bwrdd fel ail gyfarwyddwr anweithredol. Ar ôl iddynt gael eu recriwtio, bydd profiad cyfunol y Bwrdd yn cynnwys cymysgedd o sgiliau a phrofiad perthnasol fel na fydd yn rhaid dibynnu gormod ar unrhyw unigolyn. Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn, mae'r Bwrdd yn adolygu strwythur Pwyllgorau ac mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y rhain wrthi'n cael ei ddatblygu.

TRAFNIDIAETH CYMRU

DATGANIAD LLYWORDRAETHU CORFFORAETHOL (PARHAD)

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

Cyfarfodydd bwrdd a Chofnod Presenoldeb

Mae nifer y cyfarfodydd Bwrdd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a phresenoldeb y Cyfarwyddwyr (a oedd yn dal swydd ar 31 Mawrth 2018) yn cael eu dangos yn y tabl isod :

Cyfarwyddwr	Presenoldeb
N Gregg (Cadeirydd)	4/4 (penodwyd 01/09/2017)
M Dorchester	3/4 (penodwyd 01/09/2017)
A Falleyn	7/9
P Kennedy	6/9
B McKenzie	9/9
J Price (Prif Weithredwr)	9/9

Y Tîm Gweithredol

Mae'r Tîm Gweithredol, gan gynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, yn gyfrifol am y canlynol:

- Rhedeg y Cwmni, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â Chyllid, Adnoddau Dynol, Iechyd a Diogelwch a materion Cyfreithiol, yn unol â'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno.
- Cyflawni a darparu prosiectau;
- Cyflawni a darparu gweithrediadau o ddydd i ddydd ee gwasanaethau rheilffyrdd.

Mae'r Tîm Gweithredol wedi cael ei ddatblygu eleni ac mae tri o'r saith Cyfarwyddwr arfaethedig wedi cael eu recriwtio. Mae'r swyddi Gweithredol eraill wrthi'n cael eu recriwtio ac mae disgwyl i'r tîm llawn fod wedi'i sefydlu erbyn hydref 2018. Mae gan y Cyfarwyddwyr gyfrifoldebau swyddogaethol sy'n cynnwys Cymru gyfan. Mae'r tîm yn cwrdd yn wythnosol i drafod a chytuno ar faterion corfforaethol a gweithredol.

TRAFNIDIAETH CYMRU

DATGANIAD LLYWORDRAETHU CORFFORAETHOL (PARHAD)

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

Rheoli Risg

Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am reoli'r risgiau sy'n ymwneud â gweithrediadau Trafnidiaeth Cymru. Mae'r Cwmni wedi cynnal asesiad o'r risgiau mae'n ei wynebu ac mae'r prif risgiau wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Risg, sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd a'r Tim Gweithredol.

Mae'r gofrestr risg yn nodi risgiau penodol ac yn eu blaenoriaethu yn ôl effaith y risgiau a'r tebygolrwydd y byddant yn digwydd. Caiff mesurau ataliol ar gyfer y risgiau eu gosod er mwyn lleihau a rheoli'r risgiau a nodir.

Llywodraethu

Fel Prif Weithredwr, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwmo i broses o ddatblygiad a gwelliant parhaus. Mae rhaglen waith ar gyfer archwiliad mewnol yn 2019/20 wrthi'n cael ei datblygu gan y Tim Gweithredol a bydd yn cael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Bwrdd.

Rwy'n fodlon bod fframwaith llywodraethu a system rheolaeth fewnol cadarn ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Fe wnaethon nhw helpu i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Trafnidiaeth Cymru; arferion effeithiol wedi'u hwyluso ar gyfer swyddogaethau'r Cwmni a diogelu'r arian a'r asedau cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn bersonol gyfrifol amdanynt.



James Price
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

29 JUNE 2018

TRAFNIDIAETH CYMRU

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL

I AELODAU TRAFNIDIAETH CYMRU

Barn

Rydyn ni wedi archwilio datganiadau ariannol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, sy'n cynnwys y Datganiad Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Newid mewn Cronfeydd, Datganiad Llifoedd Arian a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol yn ogystal â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig sydd wedi'u mabwysiadu gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni ar 31 Mawrth 2018 ac o'i warged am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu gan yr Undeb Ewropeaidd; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail dros ein barn

Cynhaliom ein harchwiliad yn unol â'r Safon Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Caiff ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio'n fanylach yn nghyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio adran datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym ni'n annibynnol ar y cwmni yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Corff Adrodd Ariannol, ac rydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rydym ni'n credu bod y dystiolaeth archwilio rydym ni wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i roi sail dros ein barn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes byw

Nid oes gennym ddim i adrodd yn ôl arno yng nghyswllt y materion canlynol y mae'r ISAs (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd yn ôl i chi oherwydd y canlynol:

- mae'r ffordd mae'r cyfarwyddwyr yn cyfrifyddu ar sail busnes byw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn amhriodol; neu
- nid yw'r cyfarwyddwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol bod unrhyw ansicrwydd sylweddol wedi'i nodi a allai fwrw amheuaeth sylweddol am allu'r Cwmni i barhau i gyfrifyddu ar sail busnes byw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pryd mae'r datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi ar gyfer eu cyhoeddi.

Gwybodaeth arall

Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn adroddiad y Cyfarwyddwyr, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd amynt.

Nid yw ein barn ar y datganiadau yn ymwneud â'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau sydd fel arall wedi'i nodi'n benodol yn ein hadroddiad, nid ydym ni'n datgan unrhyw fath o sicrwydd yn eu cylch.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth rydym ni wedi'i chael yn yr archwiliad neu sydd fel arall yn ei chamddatgan yn sylweddol yn ôl pob golwg. Os byddwn ni'n dod o hyd i anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau sylweddol ymddangosiadol, mae'n rhaid i ni benderfynu a oes camddatganiad sylweddol yn yr adroddiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol o ran yr wybodaeth arall. Os, ar sail y gwaith rydym ni wedi'i wneud, y byddwn ni'n penderfynu bod camddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth arall, mae'n rhaid i ni roi gwybod am hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i adrodd yn ôl arno yn yr achos hwn.

Barn ar faterion eraill a bennwyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006.

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith sydd wedi'i wneud yn ystod ein harchwiliad:

- mae'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi yn yr Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol; ac
- mae'r Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion y gyfraith berthnasol.

TRAFNIDIAETH CYMRU

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL (PARHAD)

I AELODAU TRAFNIDIAETH CYMRU

Materion y mae'n rhaid inni adrodd arnyn nhw drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y Cwmni a'i amgylchedd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi canfod unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn yr Adroddiad Strategol nac yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Nid oes gennym ddim i adrodd yn ei gylch yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol inni o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 roi adroddiad ichi:

- does dim digon o gofnodion cyfrifyddu wedi'u cadw, neu dydyn ni ddim wedi cael digon o ffurflenni ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn ein barn ni yn cytuno â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw datgeliadau penodol ynghylch tâl cyfarwyddwyr a bennir gan y gyfraith yn cael eu gwneud; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau yr ydym eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr

Fel y disgrifiwyd yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr ar dudalen 5, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac mae rheolaeth fewnol o'r fath y mae'r cyfarwyddwyr yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r Cwmni i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel y bo'n briodol, materion sy'n ymwneud â busnes byw a chyfrifyddu ar sail busnes byw oni bai fod y cyfarwyddwyr naill ai'n bwriadu datod y cwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu bod dim dewis realistig arall ar gael.

Cyfrifoldebau'r archwilydd yng nghyswllt archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad yr archwilydd sy'n cynnwys ein barn ni. Mae sicrwydd rhesymol yn golygu lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw hynny'n gwarantu bod archwiliad sy'n cael ei gynnal yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiadau sylweddol. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wallau ac maent yn cael eu hystyried yn gamddatganiadau o bwys os, yn unigol neu yn gyfanredol, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr sydd wedi'u gwneud ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad manylach o'n cyfrifoldebau o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol: <http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities>. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad yr archwilydd.

Defnyddio ein hadroddiad

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud ar gyfer aelodau'r Cwmni yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 Rhan 16 Deddf Cwmnïau 2006. Cyflawnwyd ein gwaith er mwyn inni allu datgan wrth aelodau'r cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol inni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd ac i ddim pwrpas arall. I'r holl raddau a ganiateir yn ôl y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb, ac eithrio i'r cwmni ac aelodau'r cwmni, fel corff, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.


Stephen Lucey FCA (Uwch Archwilydd Statudol)

ar gyfer ac ar ran Haines Watts Wales LLP, Archwilwyr Statudol

7 Llys Neptune

Vanguard Way

Caerdydd

CF24 5PJ

Dyddiad: 29 June 2018

TRAFNIDIAETH CYMRU

DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

		2018	Cyfnod diwedd 31/03/2017
	Nodiadau	£000	wedi'i £000
Refeniw	2	10,272	8,833
Costau gweinyddol		(9,760)	(8,566)
Gwarged gweithredol	3	512	267
Cost treth incwm	5	(103)	(50)
Gwarged ar gyfer y flwyddyn / cyfnod	10	409	217

Mae'r cyfrif elw a cholled wedi'i baratoi ar sail bod yr holl weithrediadau'n weithrediadau parhaus.

TRAFNIDIAETH CYMRU


DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL

AR 31 MAWRTH 2018

		2018	2017
	Nodiadau	£000	wedi'i ailddatgan £000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	6	6,101	143
Asedau cyfredol			
Symiau masnach derbyniadwy a symiau	8	3,019	1,547
Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag		1,829	923
		4,848	2,470
Cyfanswm asedau		10,949	2,613
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau	9	4,099	2,201
Atebolrwydd treth gyfredol		116	32
		4,215	2,233
Asedau cyfredol net		633	237
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Rhwymedigaethau treth a ohiriwyd		5	18
Cyfanswm y rhwymedigaethau		4,220	2,251
Asedau net		6,729	362
Cronfeydd wrth gefn			
Cronfeydd cyfalaf		6,103	145
Enillion argadwedig	10	626	217
Cyfanswm yr ecwiti		6,729	362

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan y Bwrdd cyfarwyddwyr a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar
22.1.6.18

Llofnodwyd ar ei ran gan:



J Price
Cyfarwyddwr

Rhif Cofrestru'r Cwmni 09476013

TRAFNIDIAETH CYMRU

DATGANIADAU AM NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

Nodiadau	Cronfeydd cyfalaf £000	Enillion argadwedig £000	Cyfanswm £000
Gwarged a chyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod wedi'u hailddatgan	-	217	217
Trosglwyddo i gronfeydd cyfalaf	219	-	219
Trosglwyddo o gronfeydd cyfalaf	(74)	-	(74)
Balans ar 31 Mawrth 2017	145	217	362
Gwarged a chyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	-	409	409
Trosglwyddo i gronfeydd cyfalaf	6,055	-	6,055
Trosglwyddo o gronfeydd cyfalaf	(97)	-	(97)
Balans ar 31 Mawrth 2018	6,103	626	6,729

TRAFNIDIAETH CYMRU

DATGANIAD LLIFOEDD ARIAN

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

	Nodiadau	2018		Cyfnod diwedd 31/03/2017	
		£000	£000	£000	£000
Llif arian o weithgareddau gweithredu					
Arian parod a gynhyrchwyd o	13		938		923
Treth a dalwyd			(32)		-
Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol			906		923
Prynu asedau sefydlog diriaethol		(6,055)		(219)	
Incwm cyfalaf a gafwyd		6,055		219	
Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau buddsoddi			-		-
Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n gyferth ag arian parod			906		923
Arian parod a'r hyn sy'n gyferth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn / cyfnod			923		-
Arian parod a'r hyn sy'n gyferth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn / cyfnod			1,829		923

TRAFNIDIAETH CYMRU

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

1 Polisiâu Cyfrifyddu

Gwybodaeth am y cwmni

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gwmni cyfyngedig drwy warant, a'i unig aelod yw Llywodraeth Cymru, wedi'i ymgorffori yng Nghymru a Lloegr. Y swyddfa gofrestrdedig yw Canolfan QED, Y Brif rodfa, Ystad Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 5YR.

1.1 Confensiwn Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu i'w defnyddio yn yr Undeb Ewropeaidd a gyda'r rhannau hynny o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n adrodd o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (oni nodir yn wahanol).

Caiff y datganiadau ariannol eu llunio mewn sterling, sef arian cyfred gweithredol y Cwmni. Mae'r symiau ariannol yn y datganiadau hyn wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf.

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol. Mae'r prif bolisiâu cyfrifyddu sydd wedi'u mabwysiadu wedi'u nodi isod ac wedi'u defnyddio yn gyson â'r holl gyfnodau sydd wedi'u cyflwyno yn y datganiadau ariannol hyn.

1.2 Busnes byw

Pan fydd y cyfarwyddwyr yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol, maent yn disgwyl yn rhesymol bod gan y Cwmni ddigon o adnoddau i barhau i fodoli'n weithredol am y dyfodol rhagweladwy. Felly maent yn parhau i gyfrifyddu ar sail busnes byw wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

1.3 Trosiant

Caiff trosiant ei gydnabod yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd neu y gellid ei derbyn ar gyfer gwasanaethau a ddarperir wrth gynnal busnes arferol, ac yn cael ei ddangos net TAW a threthi eraill sy'n ymwneud â gwerthiannau.

Mae incwm a gafwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chostau sydd heb eu hwynebu eto yn cael eu gohirio a'u cydnabod yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr dros y cyfnod sy'n angenrheidiol fel eu bod yn cyfateb i'r costau y bwriedir iddynt eu digolledu.

Mae'r incwm a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â gwariant cyfalaf yn cael ei gydnabod i ddechrau mewn cronfeydd cyfalaf. Caiff incwm ei gydnabod yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr dros y cyfnod sy'n angenrheidiol i allu ei gyfateb â chost dibrisiad yr ased.

1.4 Asedau sefydlog diriaethol

Caiff asedau sefydlog diriaethol eu mesur i ddechrau yn ôl cost ac yna eu mesur yn ôl cost neu werth, dibrisiant net ac unrhyw golledion oherwydd lleihad mewn gwerth (impairment losses).

Caiff dibrisiad ei gydnabod er mwyn diddymu cost neu werth asedau ar ôl tynnu eu gwerth gweddilliol dros eu hoes ddefnyddiol ar sail:

Gwella eiddo

Llinell syth dros 2 flynedd

Gosodion a ffitiadau

Llinell syth dros 5 mlynedd

Cyfarpar cyfrifiadurol

Llinell syth dros 3 blynedd

Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd

Nid fydd asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cychwyn dibrisio nes eu bod wedi'u cwblhau ac yn barod i'w defnyddio

Caiff yr elw neu'r golled a ddaw wrth waredu ased ei phennu fel y gwahaniaeth rhwng derbynebaw'r gwerthiant a gwerth ar bapur yr ased, a bydd yn cael ei gydnabod yn y cyfrifon elw a cholled.

TRAFNIDIAETH CYMRU

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD) AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

1 Polisiâu Cyfrifyddu

1.5 Lleihad (impairment) yn yr asedau diriaethol

Pan ddaw cyfnodau adrodd yn ôl i ben, mae'r Cwmni'n adolygu symiau ar bapur ei asedau diriaethol er mwyn penderfynu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau hynny wedi wynebu colledion oherwydd lleihad. Os oes unrhyw arwydd o'r fath, bydd swm adferadwy yr ased yn cael ei amcangyfrif er mwyn pennu maint y golled (os o gwbl) oherwydd lleihad yn y gwerth. Os nad oes modd amcangyfrif swm adferadwy ased unigol, mae'r Cwmni'n amcangyfrif swm adferadwy'r uned cynhyrchu arian parod y mae'r ased yn perthyn iddi.

Y swm adferadwy yw'r gwerth teg uchaf ar ôl tynnu costau gwerthu a gwerth wrth ddefnyddio. Wrth asesu gwerth wrth ddefnyddio, gostyngir y llif arian a amcangyfrifir i'r dyfodol i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt cyn-treth sy'n adlewyrchu asesiadau'r farchnad gyfredol o werth arian o ran amser a'r risgiau penodol i'r ased nad yw'r llif arian a amcangyfrifir i'r dyfodol wedi'i addasu.

Os amcangyfrifir bod swm adferadwy ased (neu uned cynhyrchu arian parod) yn llai na'i swm ar bapur, gostyngir gwerth ar bapur yr ased (neu'r uned sy'n cynhyrchu arian parod) i'w swm adferadwy. Caiff colled oherwydd lleihad mewn gwerth ei chydabod yn syth mewn elw neu golled, oni bai fod yr ased perthnasol yn dal swm wedi'i ailbriso, ac felly bydd y golled oherwydd lleihad mewn gwerth yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbriso.

Pan fydd colled oherwydd lleihad mewn gwerth wedyn yn cael ei wrthdroi, mae swm ar bapur yr ased (neu'r uned cynhyrchu arian parod) yn cael ei gynyddu i amcangyfrif diwygiedig ei swm adferadwy, ond fel na fydd y cynnydd yn y swm ar bapur yn mynd yn fwy na'r gwerth ar bapur a fyddai wedi cael ei pennu pe na bai unrhyw golled oherwydd lleihad mewn gwerth wedi'i chydabod ar gyfer yr ased (neu'r uned cynhyrchu arian parod) mewn blynyddoedd blaenorol. Bydd gwrthdroad colled oherwydd lleihad mewn gwerth yn cael ei gydnabod yn syth mewn elw neu golled, oni bai fod yr ased perthnasol yn dal swm wedi'i ailbriso, ac felly bydd gwrthdroad y golled oherwydd lleihad mewn gwerth yn cael ei drin fel cynnydd ailbriso.

1.6 Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a blaendaliadau sy'n cael eu dal gyda banciau.

1.7 Asedau ariannol

Caiff asedau ariannol eu cydnabod yn natganiad sefyllfa ariannol y Cwmni ar ôl i'r Cwmni ddod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol yr offeryn.

Caiff asedau ariannol eu dosbarthu i gategoriâu penodol. Bydd y dosbarthiad yn dibynnu ar natur a diben yr asedau ariannol, a bydd yn cael ei bennu ar ôl cael y gydnabyddiaeth.

Caiff asedau ariannol eu mesur i ddechrau yn ôl gwerth teg a chostau trafodion, ar wahân i'r rheini sydd wedi'u dosbarthu fel rhai gwerth teg drwy elw a cholled, a fesurir yn ôl gwerth teg.

Benthyciadau a symiau derbyniadwy

Caiff dyledwyr masnach, benthyciadau a symiau derbyniadwy eraill sydd â thaliadau sefydlog neu rai y gellid eu pennu nad ydynt wedi'u dyfynnu mewn marchnad weithgar eu dosbarthu fel 'benthyciadau a symiau derbyniadwy'. Caiff benthyciadau a symiau derbyniadwy eu mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, wedi tynnu unrhyw leihad yn y gwerth.

Caiff llog ei gydnabod drwy ddefnyddio'r gyfradd llog effeithiol, ac eithrio symiau derbyniadwy tymor byr pan fyddai cydnabod llog yn ddiwbys. Mae'r dull llog effeithiol yn ddull sy'n cyfrifo cost wedi'i hamorteiddio sy'n ymwneud ag offeryn dyled ac â rhannu incwm y llog dros y cyfnod perthnasol. Mae'r gyfradd llog effeithiol yn gyfradd sy'n disgowntio'n fanwl gywir dderbynebaw arian parod a amcangyfrifir i'r dyfodol drwy oes ddisgwyliedig yr offeryn dyled i'r swm ar bapur net wrth eu cydnabod i ddechrau.

TRAFNIDIAETH CYMRU

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

1 Polisïau Cyfrifyddu

Lleihad (impairment) mewn asedau ariannol

Caiff asedau ariannol, ac eithrio'r asedau ariannol ar sail gwerth teg drwy elw neu golled, eu hasesu i weld a oes arwydd o leihad mewn gwerth ar ddiwedd pob cyfnod adrodd.

Mae asedau ariannol yn wynebu lleihad mewn gwerth pan fydd tystiolaeth wrthrychol bod llifoedd arian a amcangyfrifir i'r dyfodol yng nghyswllt y buddsoddiad wedi cael eu heffeithio, a hynny o ganlyniad i un neu fwy o ddiwyddiadau sydd wedi digwydd ar ôl cydnabod yr ased ariannol am y tro cyntaf

Datgydnabod asedau ariannol

Caiff asedau ariannol eu datgydnabod dim ond pan fydd hawliau cytundebol i lloedd arian yr ased wedi dod i ben, neu pan fydd yn trosglwyddo'r ased ariannol yn ogystal â holl risgiau a gwobrau perchnogaeth yn sylweddol i endid arall.

1.8 Rhwymedigaethau ariannol

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dosbarthu fel rhwymedigaethau ariannol ar sail gwerth teg trwy elw neu golled, neu fel rhwymedigaethau ariannol eraill.

Rhwymedigaethau ariannol arall

Caiff rhwymedigaethau ariannol eraill, gan gynnwys benthyciadau, eu mesur i ddechrau ar sail gwerth teg, costau trafodiadau net. Yna maent yn cael eu mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, a chaiff cost llog ei chydnabod ar sail buddiannau effeithiol.

Mae'r dull llog berthnasol yn ddull sy'n cyfrifo cost wedi'i hamorteiddio sy'n ymwneud â rhwymedigaeth ariannol ac â rhannu costau llog dros y cyfnod berthnasol. Mae'r gyfradd llog effeithiol yn gyfradd sy'n disgowntio'n fanwl gywir daliadau arian parod a amcangyfrifir i'r dyfodol drwy oes ddisgwyliedig y rhwymedigaeth ariannol i'r swm ar bapur net wrth eu cydnabod i ddechrau.

Datgydnabod rhwymedigaethau ariannol

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu datgydnabod dim ond pan fydd rhwymedigaethau'r Cwmni'n cael eu rhyddhau, yn cael eu canslo neu'n dod i ben.

1.9 Trethiant

Mae'r gost treth yn cynrychioli swm y dreth sy'n daladwy ar hyn o bryd a'r dreth a ohiriwyd.

Treth gyfredol

Mae'r dreth sy'n daladwy ar hyn o bryd yn seiliedig ar elw trethadwy ar gyfer y flwyddyn. Mae elw trethadwy yn wahanol i elw net sydd wedi'i nodi yn y cyfrif elw a cholled oherwydd mae'n eithrio eitemau incwm neu gostau y gallir eu trethu neu eu didynnu mewn blynyddoedd eraill ac mae'n eithrio mwy ar eitemau nad oes modd eu trethu na'u didynnu o gwbl. Caiff atebolrwydd y Cwmni dros dreth gyfredol ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfraddau treth sydd wedi'u rhoi ar waith neu sydd wedi'u rhoi ar waith yn gadarn erbyn diwedd y cyfnod

TRAFNIDIAETH CYMRU

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

1 Polisiau cyfrifyddu

Treth a ohiriwyd

Treth a ohiriwyd yw treth y mae disgwyl iddi fod yn daladwy neu'n adferadwy ar wahaniaethau rhwng symiau ar bapur asedau a rhwymedigaethau yn y datganiadau ariannol a'r sylfaeni treth cyfatebol a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo elw trethadwy, sy'n cael ei gofnodi drwy ddefnyddio dull atebolrwydd y fantolen. At ei gilydd caiff rhwymedigaethau treth a ohiriwyd eu cydnabod ar gyfer yr holl wahaniaethau dros dro sy'n drethadwy a chaiff asedau treth a ohiriwyd eu cydnabod i'r graddau ei bod yn debyg y bydd elw trethadwy ar gael y gellir hwyluso gwahaniaethau dros dro gostyngadwy yn eu herbyn. Ni chaiff asedau a rhwymedigaethau o'r fath eu cydnabod yn y gwahaniaeth dros dro sy'n deillio o ewyllys da neu drwy gydnabod asedau a rhwymedigaethau eraill i dechrau mewn trafodiad nad yw'n effeithio ar elw'r dreth nac ar yr elw cyfrifyddu.

Caiff swm ar bapur asedau treth a ohiriwyd ei adolygu ar ddiwedd pob cyfnod adrodd a chaiff ei ostwng i'r graddau nad yw'n debygol y bydd elw trethadwy digonol ar gael i allu adfer yr ased neu ran ohono. Caiff treth a ohiriwyd ei chyfrifo ar sail y cyfraddau treth y mae disgwyl iddynt fod yn berthnasol yn y cyfnod y bydd y rhwymedigaeth yn cael ei setlo neu'r ased yn cael ei droi'n arian. Caiff treth a ohiriwyd ei chodi neu ei phriodoli mewn cyfrifon elw a cholled, ac eithrio pan fydd hi'n ymwneud ag eitemau sydd wedi'u codi neu eu priodoli yn uniongyrchol i gronfeydd wrth gefn. Mewn achosion o'r fath mae'r dreth a ohiriwyd hefyd yn cael ei thrin mewn cronfeydd wrth gefn. Mae treth a ohiriwyd a rhwymedigaethau yn gwrthbwysu pan fydd gan y Cwmni hawl y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol i wrthbwysu rhwymedigaethau ac asedau treth gyfredol a bod y rhwymedigaethau a'r asedau treth gyfredol yn ymwneud â threthi sydd wedi'u codi gan yr un awdurdod treth.

1.10 Buddion gweithwyr

Caiff costau buddion gweithwyr tymor byr eu cydnabod fel rhwymedigaethau a threuliau, oni bai fod yn rhaid cydnabod y costau hynny yn rhan o gost cyflenwadau neu asedau sefydlog.

Caiff cost unrhyw hawl gwyliau sydd heb ei defnyddio ei chydnabod yn y cyfnod y derbynnir gwasanaethau'r cyflogai.

Caiff buddion terfynu eu cydnabod yn syth fel cost os bydd y Cwmni yn amlwg wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth cyflogai neu i ddarparu buddion terfynu.

1.11 Buddion ymddeoliad

Caiff cyfraniadau i gynllun pensiwn cyfraniad wedi'i ddiffinio eu cynnwys yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn berthnasol.

1.12 Prydlesi

Mae rhenti sy'n daladwy o dan brydlesi gweithredu, heb ystyried unrhyw gymhellion prydlesi a dderbyniwyd, yn cael eu cynnwys ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles berthnasol ac eithrio lle mae sail arall sy'n fwy systematig yn fwy cynrychiadol o'r patrwm amser y mae buddion economaidd prydles yr ased yn cael eu defnyddio.

TRAFNIDIAETH CYMRU

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

2 Trosiant

Dyma ddadansoddiad o drosiant y Cwmni:

	2018	Cyfnod diwedd 31/03/2017 wedi'i ailddatgan
	£000	£000
Cyngor Craidd i Lywodraeth Cymru	10,269	8,833
Refeniw arall	3	-
	<hr/>	<hr/>
	10,272	8,833
	<hr/>	<hr/>

3 Gwarged gweithredol

	2018	Cyfnod diwedd 31/03/2017
	£000	£000
Caiff gwarged gweithredol am y flwyddyn / cyfnod ei nodi ar ôl codi:		
Prydlesi gweithredu eraill	92	80
Ffioedd sy'n daladwy i archwilydd y Cwmni ar gyfer archwilio datganiadau ariannol y Cwmni	5	3
Dibrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar	97	76
	<hr/>	<hr/>

O dan y darpariaethau pris trosglwyddo, mae Trafnidiaeth Cymru yn rhoi lwfans ar gostau ei wasanaethau cynghori a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru. Bydd yr ychwanegiad yn creu gwarged, sy'n cael ei ail-fuddsoddi yng ngweithgareddau'r Cwmni i fodloni'r amcanion a nodwyd.

TRAFNIDIAETH CYMRU

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

4 Cyflogeion

Cyfartaledd misol nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi gan y Cwmni yn ystod y flwyddyn / cyfnod:

	2018 Rhif	Cyfnod diwedd 31/03/2017 Rhif
Cyflogeion	6	2

Roedd eu tâl cyfanredol yn cynnwys:

	2018 £000	Cyfnod diwedd 31/03/2017 £000
Cyflogau	249	99
Costau nawdd cymdeithasol	26	10
Costau pensiwn	10	-
	285	109

Ni wnaeth y Cwmni gyflogi na thalu unrhyw gyfarwyddwyr yn uniongyrchol yn ystod y flwyddyn / cyfnod.

5 Cost treth incwm

	Gweithrediadau parhaus	
	2018 £000	Cyfnod diwedd 31/03/2017 wedi'i ailddatgan £000
Treth gyfredol		
Treth y flwyddyn gyfredol	116	32
Treth a ohiriwyd		
Tarddiad a Gwrthdroad gwahaniaethau dros dro	(13)	18
Cyfanswm tâl treth	103	50

TRAFNIDIAETH CYMRU

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

5 Cost treth incwm

Gall y tâl am y flwyddyn / cyfnod gael ei gysoni â'r gwarged yn unol â'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr fel a ganlyn:

	2018 £000	Cyfnod diwedd 31/03/2017 £000
Gwarged cyn treth	512	267
Tâl Treth disgwylidig ar sail cyfradd dreth gorfforaeth o 19% / 20%	97	53
Costau nad ydynt yn ostyngadwy wrth bennu elw trethadwy	4	-
Effaith gwahaniaeth mewn cyfraddau	2	(3)
Tâl treth am y flwyddyn / cyfnod	103	50

6 Asedau sefydlog diriaethol

	Gwella eiddo £000	Asedau sydd wrthi'n cael £000	Gosodion a ffitiadau £000	Cyfarpar cyfrifiadurol £000	Cyfanswm £000
Cost					
Ar 31 Mawrth 2017	160	-	41	18	219
Ychwanegiadau	5	6,044	4	2	6,055
Ar 31 Mawrth 2018	165	6,044	45	20	6,274
Dibrisiad cronodig					
Ar 31 Mawrth 2017	64	-	7	5	76
Tâl am y flwyddyn	82	-	9	6	97
Ar 31 Mawrth 2018	146	-	16	11	173
Swm ar bapur					
Ar 31 Mawrth 2018	19	6,044	29	9	6,101
Ar 31 Mawrth 2017	96	-	34	13	143

Asedau sydd wrthi'n cael eu

Mae Trafnidiaeth Cymru yn ymgymryd â rhaglen o waith cyfalaf yn unol â'i amcanion a nodwyd ac y cytunwyd arnynt yn y llythyr cylch gwaith. Mae'r gwariant cyfalaf yn y flwyddyn gyfredol yn cynrychioli prosiectau gwella rheilffyrdd, megis Cledrau Craidd y Cymoedd, i gefnogi datblygiad Metro De Cymru a gorsaf drenau a chyfleusterau stablau yn Llanwern.

TRAFNIDIAETH CYMRU

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

7 Addasiad y flwyddyn flaenorol

Roedd yn rhaid addasu'r flwyddyn flaenorol oherwydd nad oedd addasiad i bris trosglwyddo wedi cael ei gydnabod yng nghyfrifon y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017.

Caiff ffigurau 2017 eu hailddatgan ar ôl ystyried yr addasiad i'r pris trosglwyddo, wedi tynnu'r Dreth Gorfforaeth a godwyd arnynt.

8 Dyledwyr

	Dyledus o fewn blwyddyn	
	2018	2017
	£000	£000
Dyledwyr masnach gyda phartïon cysylltiedig	2,924	1,463
Symiau derbyniadwy eraill	95	84
	<u>3,019</u>	<u>1,547</u>

9 Credydwyr

	Dyledus o fewn blwyddyn	
	2018	2017
	£000	£000
Credydwyr masnach	1,668	780
Croniadau ac incwm gohiriedig	2,125	1,374
Diogelwch cymdeithasol a threthi eraill	303	47
Credydwyr eraill	3	-
	<u>4,099</u>	<u>2,201</u>

10 Enillion argadwedig

	£000
Ar 1 Rhagfyr 2015	-
Gwarged ar gyfer y flwyddyn	<u>217</u>
Ar 31 Mawrth 2017	217
Gwarged ar gyfer y flwyddyn	<u>409</u>
Ar 31 Mawrth 2018	<u>626</u>

TRAFNIDIAETH CYMRU

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

11 Ymrwymadau o dan brydlesi gweithredol

Lesddeiliad

Dyma'r symiau a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr fel treuliau yn ystod y flwyddyn / cyfnod yng nghyswllt trefniadau o ran brydlesi gweithredol:

	2018 £000	2017 £000
Taliadau prydes sylfaenol o dan brydlesi gweithredol	92	80

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd gan y Cwmni ymrwymadau eithriadol ar gyfer taliadau prydes sylfaenol o dan brydlesi gweithredol na ellir eu canslo, sy'n ddyledus fel a ganlyn:

	2018 £000	2017 £000
O fewn blwyddyn	69	69
Rhwng dwy a phum mlynedd	35	69
	<u>104</u>	<u>138</u>

TRAFNIDIAETH CYMRU

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL (PARHAD)

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018

12 Trafodion partïon cysylltiedig

Mae'r Cwmni yn is-gwmni sydd dan reolaeth lwy'r Llywodraeth Cymru, felly mae Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Cwmni incwm o £10,269,000 gan Lywodraeth Cymru (2017: £8,833,000).

Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan y Cwmni £2,924,000 yn ddyledus iddo gan Lywodraeth Cymru (2017: £1,463,000) mewn perthynas â gwasanaethau a ddarparwyd ac sydd wedi'u cynnwys yng nghyswllt dyledwyr masnach.

Mae balans yr incwm gohiriedig gyda Llywodraeth Cymru o £444,000 (2017: £829,000) wedi'i gynnwys ym malans y croniadau a'r incwm gohiriedig.

13 Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau

	2018 £000	Cyfnod diwedd 31/03/2017 £000
Gwarged ar gyfer y flwyddyn / cyfnod ar ôl treth	409	217
Addasiadau ar gyfer:		
Treth a godwyd	103	50
Dibrsiad asedau sefydlog diriaethol	97	76
Trosglwyddo o gronfeydd cyfalaf	(97)	(76)
Symudiadau mewn cyfalaf gwaith:		
Cynnydd mewn dyledwyr	(1,473)	(1,546)
Cynnydd mewn credydwyr	1,899	2,202
Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau	<u>938</u>	<u>923</u>